# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 14 Chwefror 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
5 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Darpariaeth Ddeintyddol y GIG

**C9 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi datganiad byr ar y ffordd y mae'n bwriadu gwella darpariaeth ddeintyddol y gwasanaeth iechyd gwladol? (OAQ15628)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaeth deintyddol cynhwysfawr o safon dda yn y GIG a hwnnw ar gael i bawb sydd am ei ddefnyddio, lle bynnag yng Nghymru y maent yn byw.

Mae menter ddeintyddol Cymru wedi llwyddo i raddau helaeth eisoes wrth ddenu deintyddion newydd i'r mannau o Gymru sydd â'u hangen fwyaf. Er mwyn datblygu'r llwyddiant hwnnw, yr wyf wedi darparu arian ychwanegol i barhau â'r fenter a'i gwella. Bydd y pecyn yn cynnwys:

- cynnydd yn y cymorthdaliadau sylfaenol sydd ar gael i ardaloedd penodol
- grantiau i sefydlu practisiau hyfforddi galwedigaethol ac i ddenu pobl i hyfforddi
- taliadau i'r sawl sy'n dychwelyd i'r proffesiwn ar ôl dwy flynedd o egwyl
- prynu sesiynau mynediad ychwanegol y tu allan i'r ddarpariaeth o wasanaeth deintyddol cyffredinol, a
- pharhau â'r model gwasanaeth deintyddol cymunedol/gwasanaeth deintyddol cyffredinol i ddarparu gwasanaeth deintyddol y GIG lle nad yw'n hawdd ei gael.

Rhoddaf ddatganiad manwl am hyn cyn hir.

*Tynnwyd cwestiwn 10 (OAQ15679) yn ôl.*

### Triniaeth Gwrth-TNF

**C11 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog roi datganiad ynghylch i ba raddau y mae triniaeth gwrth-TNF ar gael i'r rheini y ceir bod arnynt grydcymalau gwynegol yn Nwyrain De Cymru? (OAQ15726)

**Jane Hutt:** Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol yn bwriadu cyhoeddi ei arfarniad technoleg ar effeithlonrwydd clinigol ac o ran cost o ddefnyddio etanercept ac infliximab at drin crydcymalau gwynegol a chymalwst idiopathig amlgymalol ieuengaidd ym mis Mawrth eleni. Ar ôl i'r arfarniad hwnnw gael ei gyhoeddi, disgwyliaf i bob awdurdod iechyd ac ymddiriedolaeth GIG Cymru gadw'r arfarniad hwnnw mewn cof wrth bennu eu blaenoriaethau. Yn y cyfamser, mater i'w bennu'n lleol yw darparu cyffuriau gwrth-TNF. Dylid penderfynu ar bob achos yn ôl ei rinweddau unigol, gan gadw mewn cof y dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn ag effeithlonrwydd ac argaeledd y cyffuriau.

## Mewnforion Cig Anghyfreithlon

**C12 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog roi datganiad ar rôl Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru wrth atal cig anghyfreithlon rhag cael ei fewnforio? (OAQ15673) [R]

**Jane Hutt:** Rhennir y cyfrifoldeb am fewnforio cynhyrchion o darddiad anifeilaidd rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (am iechyd y cyhoedd) ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (am iechyd anifeiliaid). Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n arwain ar oblygiadau diogelwch bwyd, wrthi'n chwarae rhan mewn gweithgor traws-lywodraethol sy'n cael ei arwain gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'r adran honno'n cydlynu ystod o fentrau sy'n ceisio gwella'r gallu i ganfod ac atal mewnforio cig yn anghyfreithlon. Mae'r asiantaeth wedi rhoi canllawiau i'r awdurdodau lleol, a hwy sydd â chyfrifoldeb am weithredu mesurau rheoli mewn porthladdoedd a meysydd awyr, iddynt anelu eu hadnoddau gorfodi'n well. Yn ddiweddar, cytunodd bwrdd DU yr asiantaeth ar gynllun gweithredu 10-pwynt â'r bwriad o gryfhau'r mesurau rheoli mewnforion a gwella effeithlonrwydd archwiliadau i fwyd wedi'i fewnforio.

## Gofalu am Blant â Salwch neu Anabledd Tymor Hir

**C13 Val Lloyd:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gynorthwyo rhieni unigol sy'n gofalu am blant â salwch neu anabledd hirdymor? (OAQ15636)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi cyhoeddi canllawiau statudol i'r awdurdodau lleol ynglŷn â'u dyletswyddau i rieni plant anabl yn ôl Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000. Ym mis Gorffennaf 2001, gwnaeth y Cynulliad reoliadau sy'n ymestyn yr hawl i asesiad gan yr awdurdod lleol i rieni sy'n gofalu am blant anabl. Trwy reoliad, mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi ymestyn y dewis o dalu'n uniongyrchol, yn lle'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau, i bobl anabl 16 a 17 oed. Bydd rhieni sy'n gofalu hefyd ar eu hennill o'r cynllun i weithredu strategaeth ofalwyr a'r grant arbennig gofalwyr i awdurdodau lleol (£17 miliwn dros dair blynedd), gyda'r bwriad o wella gwasanaethau i ofalwyr.

Mae mentrau eraill sy'n cynorthwyo rhieni sydd â phlant ac arnynt salwch neu anabledd hirdymor yn rhan o bolisïau a rhaglenni allweddol y Cynulliad i blant a theuluoedd, a'r agenda cynhwysiant cymdeithasol ehangach. Y nod yw gwella'r gwasanaethau cymorth i alluogi plant sâl neu anabl a'u teuluoedd i fyw bywydau sydd mor llawn ag y bo modd. Ymhlith y rhaglenni hynny mae Plant yn Gyntaf a Cymorth (sy'n dod â chronfa'r plant, Cychwyn Cadarn, partneriaethau plant ac ieuenctid, mynediad ieuenctid a'r strategaeth chwarae ynghŷd) a'r arian a ddarperir i sefydliadau gwirfoddol Cymru gyfan, megis y prosiect cynghori ar anghenion arbennig, Cyswllt Teulu Cymru a mynediad i blant duon sydd ag anableddau neu salwch parhaol.

## Amseroedd Aros

**C14 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog roi datganiad ar y mesurau a gyflwynwyd yn ddiweddar i ostwng amseroedd aros yng Nghymru? (OAQ15712)

**Jane Hutt:** Ym mis Gorffennaf, cyhoeddais strategaeth amseroedd aros, gan newid y pwyslais o restrau i amseroedd. Mae amseroedd aros am driniaeth ar y galon ac orthopedig yn cael eu lleihau er mwyn cyrraedd y targedau o 12 mis a 18 mis yn eu tro. Mae'r ymddiriedolaethau'n gweithio i leihau'r amser aros am driniaeth at bilennau llygaid i bedwar mis ar y mwyaf, ac mae niferoedd y sawl sy'n aros yn lleihau.

## Cartrefi Gofal Annibynnol

**C15 Peter Black:** Pa gamau eraill y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau dyfodol cartrefi gofal annibynnol? (OAQ15677)

**Jane Hutt:** Fy nod yw gweithio mewn partneriaeth i wella ansawdd y gwasanaethau gofal a sicrhau bod y sector cartrefi gofal yn hyfyw a bywiog. Ymhlith y camau sy'n cael eu cymryd mae:

- sefydlu grŵp strategaeth gofal Cymru gyda'r sector gofal a phartneriaethau eraill yn y sectorau statudol a gwirfoddol er mwyn ymdrin â'r problemau cyfredol a helpu i ddod â mwy o sadrwydd a hyder i'r sector.
  Bydd y trafodaethau hynny'n cael eu bwydo gan well monitro o batrymau a thueddiadau darpariaethau gofal ac yn cynnwys anghenion hyfforddi a datblygu busnesau'r sector gofal yn ei grynswth
- datblygu canllawiau statudol diwygiedig i'r awdurdodau lleol, i'w harferion comisiynu a chontracto gwasanaethau gofal i hyrwyddo arferion da a chyson ac i gydnabod effeithiau arferion comisiynu ar ddarparwyr
- darparu £10 miliwn ychwanegol i'r awdurdodau lleol dros ddwy flynedd i gydnabod y pwysau sydd ar y sector ac i helpu i ymdrin ag achosion trosglwyddo gofal sydd wedi'u hoedi
- cyflwyno safonau cenedlaethol newydd a chofrestru ac arolygu annibynnol drwy Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, a fydd yn helpu i sicrhau y bod darparwyr statudol ac annibynnol yn gweithio, am y tro cyntaf, ar faes gwastad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

*Tynnwyd cwestiwn 8 (OAQ15696) yn ôl.*

### Gyrfaoedd ym Maes Peirianneg

**C9 Cynog Dafis:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod pobl ifanc Cymru yn medru derbyn addysg a hyfforddiant addas i'w galluogi i ddilyn gyrfaoedd ym maes peirianneg? (OAQ15717) (OAQ15717) (OAQ15717) [W]

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae'r cysylltiadau rhwng addysg a busnes yn sicrhau bod gan beirianneg, gwyddoniaeth a thechnoleg broffil uchel yn yr ysgolion a bod pobl ifanc yn cael gwybod am y cyfleoedd y mae gyrfa mewn peirianneg yn eu cynnig. Yn fy llythyr cylch gorchwyl i'r Cyngor Cenedlaethol—Dysgu ac Addysgu Cymru, gofynnais iddo ystyried sut y gellir cynyddu'r cyflenwad o sgiliau peirianneg a thechnoleg ymysg graddedigion a sut y gall busnesau bach a chanolig eu maint fanteisio ar y sgiliau hynny. Mae'r lefelau recriwtio ar gyfer hyfforddiaethau cenedlaethol a phrentisiaethau modern mewn galwedigaethau sy'n ymwneud â pheirianneg yn parhau yn uchel. Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer cyflwyno tystysgrifau cyffredinol addysg uwchradd galwedigaethol, gan gynnwys peirianneg, yng Nghymru yr un pryd ag yn Lloegr.

### Llinell Gymorth Teacherline

**C10 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y cynnydd sydyn yn y galwadau i linell gymorth Teacherline? (OAQ15651)

**Jane Davidson:** Mae Teacherline yn darparu gwasanaeth cynghori gwerthfawr a chyfrinachol i athrawon. Ar hyn o bryd y mae'n gweithredu yn Lloegr ac, er bod modd i athrawon Cymru ei defnyddio, nid yw'n cael ei hysbysebu yng Nghymru, ac nid oes gwasanaeth Cymraeg. Yr wyf yn falch o ddweud y byddaf yn darparu arian i sefydlu Teacherline Cymru yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf. Sefydlir y gwasanaeth hwnnw'n unswydd ar gyfer athrawon Cymru.

### Recriwtio Athrawon Cyfrwng Cymraeg i Bynciau Gwyddonol

**C11 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg i bynciau gwyddonol? (OAQ15753)

**Jane Davidson:** Yn ôl yr arolwg diweddar ar recriwtio athrawon a wnaed gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, fe gafwyd bod rhai anawsterau recriwtio i'r ysgolion Cymraeg, gan gynnwys ym

maes y gwyddoniaethau. Er hynny, ychydig o swyddi gwag i athrawon sydd yng Nghymru o hyd. Yn ôl yr ystadegau a gyhoeddwyd yn ddiweddaraf, dim ond 60 o swyddi gwag oedd yn ysgolion uwchradd Cymru.

Cytunaf â chasgliad y cyngor addysgu cyffredinol, sef bod angen rhagor o wybodaeth am feysydd ehangach na'r pynciau a archwiliwyd yn yr arolwg, a thros gyfnod hwy, fel y gellid cael darlun eglurach o recriwtio. Byddwn yn fodlon cydweithio â'r sawl sydd â diddordeb i weld sut y gellir datblygu hyn.

**Gweinyddu a Rheoli'r System Cyflogau ar Sail Perfformiad**

**C12 Janet Ryder:** Pa adnoddau ychwanegol a ddarparwyd i'r ysgolion i'w galluogi i weinyddu a rheoli'r system gyflogau ar sail perfformiad y flwyddyn nesaf? (OAQ15649)

**Jane Davidson:** Mae costau cyflogau athrawon, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r system, yn cael eu hystyried yn setliad refeniw'r awdurdodau lleol i 2002-03.

**Bwlch Cyllid mewn Addysg Uwch**

**C13 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog bennu amserlen ar gyfer lleihau'r bwlch rhwng Cymru a Lloegr o safbwynt cyllid mewn addysg uwch? (OAQ15643)

**Jane Davidson:** Mae cyllid i addysg uwch yng Nghymru ar hyn o bryd yn cyfateb â'r cyllid yn Lloegr, yn nhermau unedau'r adnoddyn.

**Darpariaeth Addysg ar gyfer Plant Byddar yng Nghymru**

**C14 Gareth Jones:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod darpariaeth addysg ddigonol ar gyfer plant byddar yng Nghymru? (OAQ15713)

**Jane Davidson:** O Ebrill eleni, sefydlir grŵp llywio i Gymru gyfan a fydd yn ystyried anghenion addysgol arbennig anghyffredin a'r ddarpariaeth ar gyfer anableddau sy'n achosi pobl i fod yn ddibynnol iawn, gan gynnwys namau clyw, yng Nghymru.

Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi sefydlu grŵp arbenigol, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol a swyddogion sy'n gweithio ym maes addysg, i baratoi at ddechrau darparu sgrinio clyw babanod newydd-anedig ledled Cymru.

**Rhaglen Sgrinio Gyffredinol ar Glyw Babanod Newydd-anedig**

**C15 Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith cyflwyno rhaglen sgrinio gyffredinol ar glyw babanod newydd-anedig ar y polisi anghenion addysgol arbennig? (OAQ15755)

**Jane Davidson:** Mae cyflwyno rhaglen sgrinio yn gyson â'r hyn sydd yng nghod ymarfer anghenion addysgol arbennig Cymru ac 'Y Wlad sy'n Dysgu', y mae'r ddau yn pwysleisio mor bwysig yw canfod problemau clyw a gweithredu'n briodol.

O Ebrill eleni, sefydlir grŵp llywio i Gymru gyfan a fydd yn ystyried anghenion addysgol arbennig nad ydynt yn gyffredin a'r ddarpariaeth ar gyfer anableddau sy'n achosi pobl i fod yn ddibynnol iawn. Gofynnaf i'r grŵp llywio arolygu'r gwasanaethau addysg i blant sydd â nam ar y clyw.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Trefniadau Pensiwn

**C1 Ann Jones:** A wnaiff y Pwyllgor ddatganiad ynghylch y niferoedd sy'n manteisio ar y trefniadau pensiwn newydd sydd ar gael i staff cymorth yr Aelodau? (OAQ15657) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** O 12 Chwefror 2002, mae 157 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad â hawl o dan gontract i gyfraniadau at eu pensiynau gan eu cyflogwyr. O'r rheini, mae 56 wedi ymuno â chynllun cyfrandeiliaid staff cymorth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae rhai eraill wedi gwneud trefniadau preifat drwy ddarparwyr pensiynau eraill o'u dewis eu hun, ac nid yw'r gweddill wedi gwneud trefniadau hyd yn hyn.

Mae'r Swyddfa Ffioedd wedi cael cymorth gan ymgynghorydd ariannol annibynnol i sefydlu trefniadau'r cyfrandeiliaid a rhoi cyngor i staff unigol. Bydd y Swyddfa Ffioedd yn parhau i atgoffa'r sawl sydd heb ymuno â chynllun pensiwn am eu hawl i gyfraniadau.